# 15. YR YMADRODD CYNTAF - Maddau Iddynt

**Darllen:** Luc 24: 323-38

Uwchben pob croes, gosodwyd gwarant dienyddio'r sawl oedd ar y groes. Ar y groes ganol, rhoddwyd yr hyn a ysgrifennodd Pilat, sef 'Brenin yr Iddewon.' Safodd y dorf o gwmpas y groes hon â'u casineb at Iesu yn ffrwydro o dan arweiniad yr archoffeiriaid, gan ei watwar yn greulon: '*O, ti sydd am fwrw'r deml i lawr a'i hadeiladu mewn tridiau, disgyn oddi ar y groes ac achub dy hun'* a '*Disgynned y Meseia, Brenin Israel yn awr oddi ar y groes, er mwyn i ni weld a chredu*.' Ond, fel y dywedodd y Cadfridog William Booth, '*Yr ydym ni yn credu ynddo am na ddaeth i lawr oddi ar y groes.*'

Yn ôl Gilbert Hart, 'Tra bod casineb a phechod yn gwneud eu gwaethaf, agorodd Iesu ddrws maddeuant i ni. Ceir holl ystyr y groes yn y weddi hon: ymwna â maddeuant gras Duw ac anwybodaeth dyn. Ond, maddeuant i bwy? - i Caiaffas ac arweinwyr y genedl, i Pilat a'r milwyr estron, i'r tyrfaoedd fu'n gweiddi am ei waed, i Jwdas a Pedr a'r lleill, i chwi a minnau a phawb arall. '*Boed ei waed arnom ni ac ar ein plant'* oedd eu cri hwythau. Atebodd gyda'i air cyntaf: '*O Dad, maddau iddynt'.'Ni wyddant…*'

Wrth gwrs mae'n gwbl amlwg i ni eu bod yn gwybod ac yn deall. Felly, y mae hi bob amser wrth i ni sylwi ar weithredoedd drwg pobl eraill. Ond, rhaid eu bod hwythau hefyd yn eu calonnau yn gwybod ac yn deall, fel ninnau yn ein tro. Pobl falch a hunan-hyderus sydd yma yn gwbl siu'r o'u hunain. Daeth Pilat â sarhad ar eu pennau wrth iddo ysgrifennu '*Brenin yr Iddewon'*, gan bery loes i'w balchder. Ond, nid clwyfo balchder oedd pwrpas Iesu ond golchi balchder i ffwrdd. Maddeuant oedd ar waith ar y groes. '*Maddau*', yw gweddi Crist, nid '*Anghofia*'. A all y Duw holl-wybodus anghofio? Mae'n ymddangos i mi nad anghofio a wna Duw ond cofio mewn cariad. Maddau yw swyddogaeth cariad gan ddod â daioni allan o ddrygioni. Yn lle rhoi terfyn ar y croeshoelio, gwnaeth y Duw croeshoeliedig ei ddefnyddio er mwyn ryddhau ei faddeuant a'i ras i'r byd. Sawl cwpwrdd llawn o boteli moddion sydd ar gael heb eu hagor? Sawl stôr o faddeuant sydd ar gael heb eu hagor? Wrth i rywun wneud cam â ni ddaw cyfle i ni gymryd ein lle yng ngweithgarwch maddeuant Duw. '*O Dad, maddau iddynt. Ni wyddant beth y maent yn ei wneud.*'

**Gweddi:**

*Iesu, Oen Duw, trugarha wrthym.*
*Iesu, sy'n dwyn ein pechodau, trugarha wrthym.*
*Iesu, Iachawdwr y byd, dyro i ni dy dangnefedd. Amen.*